Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru



Medi 2018

## Trosolwg

Prif bwrpas y cyhoeddiad yw rhoi'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn nodi sut y gall cyrff sydd â diddordeb gymryd rhan yn y broses cynllunio morol.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y ddogfen hon neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynllunio morol yng Nghymru, cysylltwch â:

Cynllunio Morol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: Caerdydd 03000 255811
E-bost: marineplanning@llyw.cymru

Neu ewch i'r tudalennau Cynllunio Morol ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://beta.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru

# Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog 02

Crynodeb a Rhestr Termau 03

Cyflwyniad 04

Parth Cynllunio Morol Cymru 05

Diben y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd 06

Cwmpas System Cynllunio Morol Genedlaethol Cymru 06

Cynllunio Morol ar gyfer Cymru – hynt y gwaith hyd yma 07

Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i sicrhau cyfranogiad ym maes cynllunio morol 08

# Rhagair



Gwawriodd cyfnod newydd ar gyfer rheoli moroedd Cymru pan gyflwynwyd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Darparodd ar gyfer ffordd o weithredu sy’n gryfach o lawer, yn gydgysylltiedig ac yn seiliedig ar gynllun.

Yn yr un modd ag y mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn yn Llywodraeth Cymru, datblygu cynaliadwy fydd wrth wraidd ein system cynllunio morol newydd hefyd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn atgyfnerthu’r egwyddor o gynnwys pobl wrth ddatblygu a gweithredu polisïau ac maent hefyd yn ategu pwysigrwydd hynny.

Rwyf yn awyddus i'n system cynllunio morol fod yn un rhagweithiol a chynhwysol a fydd yn rhoi eglurder i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol ein moroedd. Rwyf am gael eich cymorth i sefydlu system sy'n dweud wrth y byd bod gan Gymru gryn botensial ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol os gwnawn ni ddefnydd cynaliadwy o'n moroedd. Mae'r Datganiad hwn o Gyfranogiad y Cyhoedd yn pwysleisio ein hymrwymiad i weithio gyda chi drwy gydol y broses cynllunio morol.

Hoffwn eich annog i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru.

**Lesley Griffiths AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

## Crynodeb

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi'r sail statudol ar gyfer system newydd sy'n seiliedig ar gynllun ar gyfer gweithgareddau morol ledled y DU. Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Cynllunio ar gyfer dyfroedd glannau a môr mawr Cymru.

Diben allweddol y Datganiad diwygiedig hwn o Gyfranogiad y Cyhoedd yw nodi sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid drwy gydol y broses cynllunio morol. Byddwn yn adolygu'r Datganiad yn rheolaidd ac yn ei ddiwygio yn ôl y gofyn. Mae'r ddogfen hon yn diweddaru'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017.

---

## Geirfa

**DMMA:** Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

**DGC:** Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd

**CMCC:** Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

**DPM:** Datganiad Polisi Morol y DU

**DEFRA:** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**FfDC:** Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**AG:** Arfarniad o Gynaliadwyedd

**AAS:** Asesiad Amgylcheddol Strategol

**ARhC:** Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**(SoNaRR):** Yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**YCS:** Ymarfer Cwmpasu Strategol

**GCGCFM:** Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol

**GCRhCM:** Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol

**PAMC:** Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru

**GPCM:** Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol

# Cyflwyniad

Mae mwy a mwy o brysurdeb yn y moroedd o amgylch Cymru. Mae hynny'n golygu bod cystadleuaeth am le a chystadleuaeth hefyd o ran sut mae'n hadnoddau naturiol yn cael eu defnyddio. Mae gan ein moroedd botensial aruthrol, a dyna pam rydym yn awyddus i'w rheoli mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac i gynllunio'r gwaith rheoli hwnnw. Bydd angen gwneud pethau'n wahanol, gan annog gwell integreiddio rhwng mathau gwahanol o ddefnydd a rhwng sefydliadau gwahanol, yn ogystal â chyflwyno dull gweithredu blaengar, rhagweithiol a gofodol.

Mae sefydlu system cynllunio morol newydd, sy'n seiliedig ar gynllun, yn waith cymhleth am fod cynifer o fuddiannau a gweithgareddau gwahanol. Mae angen cyfranogiad parhaus gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Rydym am ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol a chynhyrchiol â phawb sydd â diddordeb yn y moroedd o amgylch Cymru neu sy'n ymwneud â'r moroedd hynny, ac mae ymgynghori wrth inni fynd ati i ddatblygu'n dull gweithredu yn rhan allweddol o'r ymgysylltu hwnnw. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod y cynllun a ddatblygir yng Nghymru yn addas at y diben ac o fudd i'n cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (Adran 51(1)) yn nodi'r gofyniad i baratoi cynllun morol ar gyfer pob ardal cynllunio morol. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal glannau ac ardal môr mawr Cymru (gweler y map ar y dudalen nesaf). Er mwyn gweithredu mewn ffordd gyson a syml, bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn un ddogfen a fydd yn cynnwys cynlluniau a pholisïau ar gyfer rhanbarthau'r glannau a/neu ranbarthau'r môr mawr. Aethom ati ym mis Rhagfyr 2017 i ymgynghori ar fersiwn ddrafft o CMCC. Ar ôl yr ymgynghoriad, wrth inni symud ymlaen at benderfynu'n derfynol ar destun terfynol y cynllun, cyhoeddwyd Crynodeb o'r Ymatebion[1] a gwnaed rhagor o waith gyda rhanddeiliaid i ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ganddynt.

Yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mabwysiadwyd y Datganiad Polisi Morol (DPM)[2] gan bedair gweinyddiaeth y DU ym mis Mawrth 2011. Mae'r DPM yn rhoi'r cyd-destun polisi lefel uchel ar gyfer datblygu, gweithredu, monitro a diwygio cynlluniau morol.

Oherwydd y setliad datganoli presennol, mae Llywodraeth y DU wedi cadw rhai pwerau, sy'n golygu y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) gytuno ar y cynllun morol a gaiff ei baratoi gan Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, os bydd y cynllun morol ar gyfer ardaloedd y glannau yn cynnwys cyfeiriad at feysydd polisi lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cadw swyddogaethau, bydd angen cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol ar eu cyfer hwy hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu'r cynllun.


Bydd angen integreiddio'r system cynllunio morol â systemau cynllunio tir a systemau eraill. Bydd y broses gynllunio'n helpu i gyflawni hynny drwy ystyried yr holl gynlluniau perthnasol, gan gynnwys cynlluniau awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol, cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, cynlluniau Rheoli Traethlin a chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau eraill a gaiff eu paratoi gan awdurdod cyhoeddus neu leol mewn cysylltiad â rheoli neu ddefnyddio'r môr neu'r arfordir. Wrth i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) gael ei ddatblygu, byddwn yn cydweithio'n agos â chynllunwyr tir i sicrhau bod cynlluniau'n rhai cydlynol a'u bod yn gydnaws â'i gilydd.

Bydd Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG), a fydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), yn cael ei integreiddio â'r broses o baratoi'r cynlluniau, a bydd yn sicrhau bod goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl y cynllun yn cael eu hystyried yn llawn. Cynhelir asesiadau eraill hefyd o effaith y Cynllun, er enghraifft, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), Safonau'r Gymraeg, hawliau'n dinasyddion, plant a phobl ifanc, a'r angen i fod yn gwbl gynhwysol.

[1] https://beta.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft

[2] https://www.gov.uk/government/publications/uk-marine-policy-statement

# Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru



## Diben y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd (DGC)

Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol ystyried barn a buddiannau llawer o bobl a sefydliadau gwahanol yn ystod y broses cynllunio morol. Mae cyhoeddi'r DGC hwn, yn unol â gofynion o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfodir, yn pwysleisio ein hymrwymiad i wneud hynny mewn modd ystyrlon a pharhaus. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio'n fras sut y gall rhanddeiliaid ddisgwyl ymgysylltu â ni, a’r hyn y byddwn yn ei wneud gyda chanlyniadau'r safbwyntiau a'r farn a fynegir.

Nid yw'r DGC yn ddogfen derfynol. Byddwn yn mynd ati i'w adolygu'n barhaus ac, os bydd hynny’n briodol, yn ei ddiweddaru wrth i CMCC esblygu.

## Cwmpas System Cynllunio Morol Genedlaethol Cymru

Mae cynlluniau morol yn hwyluso cyfleoedd i reoli gweithgareddau morol mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y Cynllun yn llywio ac yn cyfeirio penderfyniadau ar weithgareddau yn ein hardal forol. Bydd hynny’n helpu i wireddu potensial ein moroedd i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cenedlaethau’r dyfodol yng Nghymru.

Bydd y cynllun yn cael ei gefnogi gan yr holl dystiolaeth a fydd ar gael. Y prif ffynonellau gwybodaeth yw Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru (sef yr Ymarfer Cwmpasu Strategol gynt), yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol a’r Porthol Tystiolaeth Cynllunio Morol.

Mae Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru yn rhoi sylw i'n hadnoddau morol naturiol, y defnydd a wnawn ohonynt a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae hon yn sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr yr ydym wedi ymgynghori'n eang yn ei chylch er mwyn llywio gwaith cynllunio morol. Wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg, byddwn yn ystyried y dystiolaeth honno ac yn mynd ati o bryd i'w gilydd i ddiweddaru'n sylfaen dystiolaeth.

Mae'r Porthol Tystiolaeth Cynllunio Morol yn adnodd ar-lein sy'n cynnig setiau data haenog o amrywiaeth o ffynonellau, a hynny ar ffurf ofodol. Bydd y rhain ar gael, ynghyd â thystiolaeth berthnasol arall, ar dudalennau Cynllunio Morol gwefan Llywodraeth Cymru[3].

Yn benodol, ymhlith awdurdodiadau perthnasol eraill a allai effeithio ar ardal y cynllun, bydd CMCC yn ategu ac yn llywio'r system trwyddedu morol a phenderfyniadau eraill y mae angen eu gwneud ar sut i ddefnyddio’n hardal forol. Bydd yn gwneud hyn drwy sicrhau'r canlynol:

- egluro amcanion a blaenoriaethau morol
- cyfeirio'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau a defnyddwyr at benderfyniadau mwy cyson, a fydd yn seiliedig ar dystiolaeth, mewn perthynas â defnyddio adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy yn rhanbarth glannau a rhanbarth môr mawr Cymru.

Roedd Datganiad Polisi Morol y DU yn fframwaith cychwynnol ar gyfer yr hyn y dylid ei ystyried mewn cynlluniau morol. Mae'r amcanion a'r polisïau a nodir yn y cynllun yn mynd i'r afael â'r gweithgareddau allweddol sy'n digwydd yn yr ardal forol.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2014 ar strwythur y cynllun wedi cyfrannu at y gwaith o’i ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd CMCC yn cynnwys:

- Cyflwyniad, a fydd yn helpu i osod cyd-destun y Cynllun.
- Polisïau trawsbynciol cyffredinol a fydd yn berthnasol i lawer o weithgareddau a phenderfyniadau. Bydd y polisïau cyffredinol yn nodi sut y gallwn weithredu mewn ffordd a fydd yn hyrwyddo cynaliadwyedd, er budd yr economi, yr amgylchedd a'n cymunedau yng Nghymru.

[3] https://beta.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft

- Polisïau ar gyfer sectorau penodol a fydd yn ategu'r polisïau trosfwaol, cyffredinol. Bydd y polisïau sector-benodol hyn yn cynnwys, er enghraifft, polisïau'n ymwneud â Dyframaethu; Agregau; Amddiffyn; Carthu Morol a Gwaredu; Ynni; Pysgodfeydd; Porthladdoedd a Morgludiant; Twristiaeth a Hamdden.

(Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn rhestr derfynol na chyflawn o'r holl feysydd polisi y bwriedir eu cynnwys yn y cynllun).

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phawb sydd â diddordeb mewn datblygu cynllun morol i Gymru.

## Cynllunio Morol ar gyfer Cymru – hynt y gwaith hyd yma

Polisi Morol y DU (DPM) yw'r fframwaith ar gyfer cynlluniau morol, ac mae'n sicrhau cysondeb wrth fynd ati i wneud gwaith cynllunio morol ar draws ardal forol y DU. Os yw awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar ardal forol, rhaid gwneud y penderfyniad yn unol â chynlluniau morol perthnasol. Mae'r cyfarwyddyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ynghylch yr angen i reoli gweithgarwch yn ein moroedd, i sicrhau ymgysylltu ystyrlon, integreiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor yn cyd-fynd â'r DPM.

Yn 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar sut y dylid ymgymryd â chynllunio morol yng Nghymru. Gofynnodd yr ymgynghoriad, 'Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru'[4], i bobl fynegi barn ar sut yr ydym yn bwriadu datblygu cynllunio morol yng Nghymru yn unol â'n pwerau a'n cyfrifoldebau. Roedd yr ymgynghoriad yn esbonio ein bod yn bwriadu datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer ardal glannau Cymru a chynllun cenedlaethol ar gyfer ardal môr mawr Cymru. Roedd hefyd yn nodi opsiynau ar gyfer sut y dylem gynllunio ar lefel is-genedlaethol, gan ofyn cwestiynau hefyd am sut i wneud hynny. Daeth 47 o ymatebion ffurfiol i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd y prif negeseuon yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar sut y dylem weithredu yn hynny o beth yn cynnwys: cefnogaeth i gynllun cenedlaethol â blaenoriaethau gofodol; ansicrwydd o ran lefel y cynllunio is-genedlaethol y byddai ei angen; yr angen i ymgysylltu'n gynnar yn y broses cynllunio morol; yr angen i ystyried y rhyngwyneb rhwng y tir a'r môr; yr angen i gysylltu cynllunio morol â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn sefydlu cynllunio morol.

Wrth ddechrau ar y gwaith cynllunio morol, ac ar ôl ymgynghori ar sut i fynd ati, cyhoeddwyd y Datganiad cyntaf o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer CMCC. Aethom ati yn 2014 i gynnal ymgynghoriad arall, a barhaodd am gyfnod o 12 wythnos, ar strwythur arfaethedig, Gweledigaeth ac Amcanion CMCC. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys cwmpas arfaethedig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ar yr un pryd, trefnwyd bod yr adroddiad drafft am yr Ymarfer Cwmpasu Strategol, a fersiwn gynnar o'r Porthol Tystiolaeth Cynllunio Morol, ar gael er mwyn i bobl fedru cyflwyno sylwadau arnynt.

Daeth 52 o ymatebion ffurfiol i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r cynigion, a chafwyd awgrymiadau ar sut i fireinio'r Weledigaeth ac i wneud yr amcanion yn fwy perthnasol i gyd-destun Cymru. Ystyriwyd yr holl ymatebion wrth fynd ati i ddatblygu'r cynllun. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar 31 Mawrth 2015.

Rhannwyd fersiwn ddrafft gychwynnol o'r cynllun ym mis Tachwedd 2015 er mwyn i bobl gael cyflwyno sylwadau arno. Ategwyd hynny drwy gynnal gweithdai o amgylch Cymru ym mis Tachwedd 2015 er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd. Aed ati rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018 i ymgynghori'n ffurfiol ar ddrafft cyntaf CMCC a'r dogfennau cysylltiedig.

[4] https://beta.llyw.cymru/datblygu-cynaliadwy-ar-gyfer-moroedd-cymru-ein-dull-o-ymdrin-chynllunio-morol-yng-nghymru

Cynhaliwyd dadl yn y Senedd yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn i Aelodau'r Cynulliad gael mynegi barn. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig weithdy gyda rhanddeiliaid penodol i drafod y cynllun drafft. Mae'r adroddiad[5] ac ymateb[6] y Llywodraeth ar gael ar-lein.

Ar ôl ymgynghori'n ffurfiol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion[7]. Mae'r ddogfen honno'n rhoi golwg gyffredinol ar y sylwadau a ddaeth i law ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried mwy ar eu hadborth wrth fwrw ymlaen i benderfynu'n derfynol ar destun y cynllun.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar ôl cyhoeddi'r Crynodeb o'r Ymatebion a bydd rhagor o gyfarfodydd yn cael eu cynnal i ddatblygu mwy ar ein syniadau. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar y dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol, ar ddatblygu cynaliadwy, ardaloedd adnoddau strategol a chynllunio trawsffiniol. Yn ogystal ag edrych ar y themâu hyn, mae gweithgor technegol yn cael ei sefydlu er mwyn rhoi ystyriaeth benodol i'r polisi ar fôr-lynnoedd llanw yn y cynllun ac i'r canfyddiadau cysylltiedig yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Heblaw am ddatblygu'r cynllun, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid i helpu i ddatblygu'r ffordd y byddwn yn mynd ati i fonitro ac adrodd ar effeithiolrwydd y cynllun. Rydym hefyd yn sefydlu grŵp o awdurdodau lleol perthnasol i'n cynghori ar sut i roi'r cynllun ar waith a'n helpu i wneud hynny.

Yn fwy eang, rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau cynllunio morol eraill. Rydym wedi cytuno â'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO), sy'n gorff yr ydym yn cydweithio'n agos ag ef, ar ddogfen sy'n amlinellu ffyrdd cyffredin o weithio. Rydym yn cyfrannu hefyd at grŵp trawsffiniol sy'n cynnwys awdurdodau cynllunio morol Môr Iwerddon.

## Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i sicrhau cyfranogiad ym maes cynllunio morol

Rydym yn cydnabod yr angen i ymgysylltu'n barhaus ac mewn modd ystyrlon. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n amserol â phobl a sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt. Anogir pawb sy'n cynrychioli buddiannau amgylcheddol ehangach, yn ogystal ag ymgyngoreion statudol dan reoliadau'r AAS, i gymryd rhan yn y broses cynllunio morol er mwyn sicrhau bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n ymgorffori'r AAS) yn ystyried yr holl effeithiau amgylcheddol posibl.

Mae cynllunio morol yn gysyniad newydd ac mae'n hollbwysig bod pawb sydd â diddordeb yn cyfrannu ato er mwyn sicrhau system gynllunio ddefnyddiol a chadarn. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob unigolyn neu grŵp sy'n debygol o fod â diddordeb yn y polisïau neu'r cynigion a gaiff eu cynnwys mewn cynlluniau morol, neu'r rheini y mae'r polisïau neu'r cynigion hynny'n debygol o effeithio arnynt, i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r system cynllunio morol er mwyn inni fedru sicrhau'r budd gorau posibl i bobl Cymru.

Rydym yn gweithio eisoes gyda llawer o randdeiliaid morol ac arfordirol ond rydym yn awyddus bob amser i gryfhau'r berthynas rhyngom. Rydym yn gweithio gyda llawer o randdeiliaid morol ac arfordirol drwy Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (GCGCMF), sy'n cynnwys amrywiaeth eang o grwpiau. Drwy'r Grŵp hwnnw, rydym yn cyhoeddi 'Diweddariad ar gyfer Defnyddwyr Morol', sy'n darparu gwybodaeth oddi wrth is-grwpiau'r Grŵp Cynghori, gan gynnwys y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (GCRhCM). Rydym wedi creu Cofrestr Rhanddeiliaid

[5] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11543/cr-ld11543-w.pdf

[6] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11609/gen-ld11609-w.pdf

[7] https://beta.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft

sy'n caniatáu i bobl gofrestru i ddangos bod ganddynt ddiddordeb ac i ddewis pa bynciau y maent yn dymuno cael gwybod amdanynt. Er mwyn hyrwyddo buddsoddiad yn y sector morol, rydym wedi creu gwefan Cymru a'r Môr ar dudalennau Busnes Cymru lle mae rhanddeiliaid yn cael eu hannog i gyfrannu.

Rydym hefyd yn annog ymgysylltu anffurfiol yn ogystal â'r ymgysylltu sy'n digwydd drwy'n hymarferion ymgynghori ffurfiol, drwy'n grwpiau cynghori, a thrwy'r rhwydweithiau sydd gennym yn barod. Rydym am i gymunedau lleol anfon eu sylwadau atom hefyd. Rydym am ddeall beth sy'n gweithio a beth sydd ddim, er mwyn inni allu annog pobl i gymryd rhan yn briodol, ac ar y lefel gywir, wrth inni fynd ati i ddatblygu cynllun morol cyntaf Cymru. Byddwn yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a dogfennau ar y tudalennau cynllunio morol ar wefan Llywodraeth Cymru wrth i'r broses ddatblygu fynd rhagddi.

Gallwch gysylltu â ni drwy'r blwch post ar unrhyw adeg i ddweud eich dweud: marineplanning@llyw.cymru

## Sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl?

Byddwn yn gofyn am eich barn a'ch sylwadau drwy ymgyngoriadau, digwyddiadau cyhoeddus, gweithdai a chyfarfodydd. Byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau a geir ar unrhyw agwedd ar gynllunio morol. Pan fyddwn yn ymgynghori neu'n gwahodd sylwadau ar adegau penodol wrth ddatblygu CMCC, byddwn yn esbonio'n glir faint o amser fydd gennych i gyflwyno'ch sylwadau a sut i wneud hynny. Byddwn yn cyhoeddi ymatebion i ymgyngoriadau mewn da bryd.

Drwy gydol y broses cynllunio morol, byddwn hefyd yn defnyddio'r canlynol, yn ôl y gofyn:

- Diweddariadau drwy'r e-bost.
- Cyflwyniadau mewn digwyddiadau, cynadleddau, etc.
- Cyfarfodydd un i un, gweithdai a sesiynau galw heibio.
- Diweddariadau ar y we.
- Grwpiau ffocws ar faterion penodol er mwyn cael barn, gwybodaeth a sylwadau.
- Y cyfryngau cymdeithasol.
- Newyddlen bwrpasol.

## Grwpiau cynghori

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau ynghylch cynllunio morol drwy ymgynghori'n ffurfiol, drwy gyfarfodydd a thrwy rwydweithio a chyswllt mwy anffurfiol. Rydym wedi sefydlu grwpiau cynghori ac arnynt aelodau sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o feysydd arbenigol a byddwn yn parhau i ddatblygu ac i ddefnyddio'r grwpiau hyn wrth i'r cynllun ddatblygu.

Byddwn yn gweithio drwy'r grwpiau cynghori i rannu gwybodaeth am hynt y gwaith a byddwn yn ceisio barn amrywiaeth o gynrychiolwyr, gan weithio hefyd gyda **Grŵp Cynghori Strategol Cymru ar Faterion Morol (GCSCFM)**.

Mae'r grŵp yn dod ag amrywiaeth eang o grwpiau buddiant strategol ynghyd i sicrhau eu bod yn cael chwarae rhan effeithiol ac ystyrlon wrth roi polisi morol ar waith.

Dyma rai o'r aelodau:

- Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
- British Marine
- Cadeirydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (yn cynrychioli rhanddeiliaid pysgodfeydd)
- Cadwch Gymru'n Daclus
- CLlLC (sy'n dirprwyo i ALlau yn ôl y gofyn)
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cragen Llŷn a Môn
- Cregyn Gleision Bangor
- Croeso Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Agregau Morol Prydain
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
- Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Dŵr Cymru
- Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr
- Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru
- Fforwm Arfordir Sir Benfro
- Mariteam Associates
- Partneriaeth Aber Afon Hafren
- Partneriaeth Pwllheli
- Renewable UK Wales
- Royal Yachting Association
- RSPB
- Un Llais i Gymru
- WWF
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Y Parciau Cenedlaethol
- Ymddiriedolaeth Natur Cymru
- Ynni Môr Cymru
- Ystad y Goron

Rydym hefyd wedi sefydlu **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (GCRhCM)**, gan rannu syniadau cynnar ag ef a chael adborth am y dull gweithredu yr ydym yn ei ddatblygu ar gyfer cynllunio morol. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Grŵp hwn wrth inni ddatblygu gwaith cynllunio morol.

Dyma rai o'r aelodau:

- CLlLC
- Cregyn Gleision Deepdock
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- European Subsea Cables Association
- Grŵp Porthladdoedd Cymru
- Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr
- Ffederasiwn Morol Prydain
- Fforwm Arfordir Sir Benfro
- Horizon Nuclear Power
- Partneriaeth Aber Afon Hafren
- Prifysgol Lerpwl
- Royal Yachting Association
- RSPB
- SEACAMS2
- Seafish
- Siambr Morgludiant y DU
- Tidal Lagoon Power
- UK Renewables
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Y Sefydliad Rheoli Morol
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ystad y Goron

Byddwn yn sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen o dan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid pan fydd mater penodol y bydd angen ei ystyried yn ofalus. Roedd grŵp gweithredu yn bodoli yn y gorffennol ac wrth inni fynd ati i ddiweddaru'r Datganiad hwn o Gyfranogiad y Cyhoedd, mae grŵp monitro ac adrodd wedi cael ei sefydlu.

# Pryd y byddwn yn ymgysylltu â phobl?

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid, ac yn rhannu datblygiadau er mwyn i bobl gael cyflwyno sylwadau arnynt wrth iddynt godi.

| Cam | Amserlen |
|---|---|
| 1. Cyfarfodydd cychwynnol i ymgynghori â rhanddeiliaid am y modd y bwriedir mynd ati i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru | Rhagfyr 2010 – Chwefror 2011 CWBLHAWYD |
| 2. Paratoi ymgynghoriad ar sut y bwriedir mynd ati i gynllunio morol yng Nghymru | Ionawr – Chwefror 2011 CWBLHAWYD |
| 3. Ymgynghori ar sut y bwriedir mynd ati i gynllunio morol yng Nghymru (12 wythnos) | Chwefror 2011 – Mai 2011 CWBLHAWYD |
| 4. Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynllunio morol | Mai 2011 – Tachwedd 2012 CWBLHAWYD |
| 5. Paratoi ac ymgynghori ar y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd | Medi 2013 – Gwanwyn 2014 CWBLHAWYD |
| 6. Datblygu ac ymgynghori ar gwmpas, gweledigaeth ac amcanion y cynllun | Haf/Hydref 2014 CWBLHAWYD |
| 7. Trafodaethau anffurfiol ac eang am fersiwn ddrafft gychwynnol CMCC ac adolygu'r Cynllun yng ngoleuni'r pwyntiau a godir | Hydref 2015 CWBLHAWYD |
| 8. Ymgynghori'n ffurfiol am ddrafft ddiwygiedig CMCC | Rhagfyr 2017 – Mawrth 2018 CWBLHAWYD |
| 9. Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol ar ddrafft ddiwygiedig CMCC | Ebrill – Mai 2018 CWBLHAWYD |
| **Camau 10 – 14 (Sylwer – gall yr holl amserau hyn newid)** | |
| 10. Penderfynu ar destun terfynol y cynllun ar ôl ymgynghori, a chyfraniadau gan arweinwyr polisi a rhanddeiliaid* | Ebrill – Rhagfyr 2018 |
| 11. Datblygu'r fframwaith monitro, y porth cynllunio a'r deunydd cysylltiedig sy'n ategu'r cynllun cyn mabwysadu'r drafft terfynol. | Gorffennaf 2018 – Mawrth 2019 |
| 12. Ystyriaeth derfynol o CMCC a'r dogfennau cysylltiedig, a'u mabwysiadu. | Diwedd gwanwyn /dechrau haf 2019 |
| 13. Gweithredu a gwerthuso CMCC | O fis Ebrill 2019 ymlaen |
| 14. Rhoi hyfforddiant ac arweiniad | O 2018 ymlaen |

*yn cymryd na fydd unrhyw ymchwiliad annibynnol fel y nodir o dan Atodlen 6. A13 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Os bydd yn briodol cynnal ymchwiliad annibynnol, yna bydd y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r amserlenni uchod.

Mae'r tabl uchod yn nodi'r camau allweddol ac amserlen ddangosol ar gyfer cynllunio morol. Rhoddir rhagor o fanylion am y gwaith hwnnw isod:

**Cam 1: Cyfarfodydd cychwynnol i ymgynghori â rhanddeiliaid am y modd y bwriedir mynd ati i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru (Rhagfyr 2010 – Chwefror 2011)**

Hwylusodd Llywodraeth Cymru weithdy yng nghynhadledd Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru (PAMC) ym mis Mawrth 2010 er mwyn ystyried dulliau cychwynnol o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru. Roedd y gweithdy'n adeiladu ar gyngor a roddodd y bartneriaeth i Lywodraeth Cymru. Llywiodd y gwaith hwnnw’r syniadau cynnar am y ffordd fwyaf priodol o fynd ati i ddatblygu'r cynllun morol cyntaf i Gymru.

**Cam 2: Paratoi ymgynghoriad ar sut y bwriedir ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru (Ionawr – Chwefror 2011)**

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru PAMC i ffurfio is-grŵp cynllunio morol i roi cyngor strategol ar yr ymgynghoriad ar gynllunio morol. Dyma aelodaeth y grŵp:

- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Grŵp Porthladdoedd Cymru
- Ffederaswin Morol Prydain
- Fforwm Arfordir Sir Benfro
- Partneriaeth Aber Afon Hafren
- Partneriaeth Tirweddau Cymru
- Renewables UK
- Royal Yachting Association
- Yr Athro Lynda Warren, PAMC (Cadeirydd)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ystad y Goron

**Cam 3: Ymgynghori ar sut y bwriedir mynd ati i gynllunio morol yng Nghymru (12 wythnos): (Chwefror 2011 – Mai 2011)**

Roedd yr ymgynghoriad '*Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru*' yn gofyn am sylwadau ar gynllunio morol yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd pobl i roi eu barn ar sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu cynllunio morol yng Nghymru yn unol â'n pwerau a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Roedd hefyd yn nodi ein bwriad i ddatblygu un cynllun cenedlaethol a fyddai'n cwmpasu rhanbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr. Yn olaf, roedd hefyd yn nodi opsiynau ar gyfer cynllunio ar lefel is-genedlaethol ac yn gofyn cwestiynau am hynny. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy ymgynghori yng nghynhadledd PAMC yn 2011.

**Cam 4: Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynllunio morol (Mai 2011 – Tachwedd 2012)**

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 11 Mai 2011 a daeth cyfanswm o 47 o ymatebion i law. Mae'r wybodaeth a gafwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi parhau i lywio'r ffordd yr ydym wedi ymdrin â chynllunio morol drwy gydol y broses hon.

Yn ystod y cyfnod hwn, aeth rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru i nifer o gyfarfodydd PAMC i roi'r newyddion diweddaraf am yr hyn sy’n cael ei ystyried ar hyn o bryd ac i gael gweld, mewn ffordd anffurfiol, beth fyddai'r ymatebion i syniadau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd copi llawn o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â dogfen gryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Cam 5: Paratoi ac ymgynghori ar y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd (Medi 2013 – Gwanwyn 2014)**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid am y DGC drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ffurfiol ym mis Chwefror 2014. Parhaodd yr ymgynghoriad am wyth wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy ar gyfer rhanddeiliaid cenedlaethol, ynghyd â phedwar digwyddiad 'galw heibio' o amgylch arfordir Cymru er mwyn ymgysylltu â’r cyhoedd.

Cyhoeddwyd dyddiad yr ymgynghoriad a manylion y digwyddiadau a'r gweithdy ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad, y gweithdy cenedlaethol i randdeiliaid a'r digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am gynllunio morol a'i gefndir, a gofynnwyd am farn gychwynnol y sector a gwybodaeth am faterion i'w cynnwys yn y cynllun morol. Cyhoeddwyd y DGC diwygiedig ym mis Mai 2014 ynghyd â chrynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Cam 6: Datblygu ac ymgynghori ar gwmpas, gweledigaeth ac amcanion y cynllun (Haf/Hydref 2014)**

Ar ôl cyhoeddi'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Weledigaeth ddrafft ac Amcanion, ar fraslun arfaethedig Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â chwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau cenedlaethol i randdeiliaid ledled Cymru, er mwyn hwyluso ymgysylltu a chael adborth yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Roedd dogfennau'r ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, gwahoddodd Llywodraeth Cymru bobl i wneud sylwadau technegol am y sylfaen dystiolaeth a gasglwyd er mwyn llywio CMCC – Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru[8] (a oedd yn seiliedig ar yr Ymarfer Cwmpasu Strategol)[9] a Phorthol Tystiolaeth[10] ar-lein sy'n cyflwyno setiau data amrywiol o amryfal ffynonellau mewn modd gofodol. Mae'r rhain yn llywio'r system cynllunio morol:

**Cam 7: Llunio ac ymgysylltu'n anffurfiol ar fframwaith drafft cychwynnol y cynllun morol (Hydref 2015)**

Nod y cam hwn oedd cael adborth am y cynllun drafft. Cynhaliwyd cyfarfodydd agored i ymgysylltu â’r cyhoedd er mwyn helpu i rannu’r cynllun drafft mewn ffordd anffurfiol. Defnyddiwyd yr holl sylwadau a ddaeth i law i lywio’r gwaith diweddaraf ar ddatblygu’r Cynllun.

**Cam 8: Ymgynghori’n ffurfiol am ddrafft ddiwygiedig CMCC (Rhagfyr 2017 – Mawrth 2018)**

Ym mis Rhagfyr 2017, cafodd fersiwn ddrafft CMCC ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos. Trefnwyd digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyhoeddwyd yr ymatebion a gafwyd yn ystod y digwyddiadau hynny ar y wefan. Byddant yn cael eu hystyried wrth inni fynd ati i ailddrafftio'r cynllun. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd pobl i fynegi barn am fersiwn ddrafft o'r CMCC cyntaf, yn ogystal â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y cynllun, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ei gyfer, a'r adolygiad o'r polisi interim ar garthu am agregau morol.

[8] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/strategic-scoping-exercise/?skip=1&lang=cy

[9] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?skip=1&lang=cy

[10] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/evidence-portal/?skip=1&lang=cy

**Cam 9: Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol am ddrafft Ddiwygiedig CMCC (Ebrill – Mai 2018)**

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 29 Mawrth 2018 a daeth cyfanswm o 86 o ymatebion i law. Mae'r wybodaeth a gafwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi parhau i lywio'r ffordd yr ydym wedi bod yn ymdrin â chynllunio morol drwy gydol y broses hon.

**Cam 10: Penderfynu'n derfynol ar destun y cynllun ar ôl ymgynghori, a chyfraniadau gan arweinwyr polisi a rhanddeiliaid (Ebrill – Hydref 2018)**

Gofynnwyd i aelodau'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid helpu i saernïo'r cynllun a'r deunydd ategol. Cynhaliwyd gweithdai ym mis Gorffennaf 2018 gyda'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i edrych yn fanylach ar y themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Y themâu hynny oedd datblygu cynaliadwy, ardaloedd adnoddau strategol, rheoli ar draws ffiniau a thystiolaeth ar gyfer cynllunio.

Sefydlwyd gweithgor technegol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer y cynllun. Cynhaliwyd nifer o weithgorau llai i edrych ar ardaloedd adnoddau strategol ac ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn y cynllun.

**Cam 11: Datblygu fframwaith monitro, porth cynllunio a deunydd cysylltiedig i ategu'r cynllun cyn mabwysiadu'r drafft terfynol (Hydref – Mawrth 2019)**

Bydd angen i Weinidogion Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cynllun diwygiedig, ac yn achos materion penodol nad ydynt wedi'u datganoli, bydd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yn San Steffan.

Gallai Gweinidogion Cymru benodi person annibynnol i ymchwilio i'r fersiwn ddrafft ac adrodd yn ôl iddynt os credant fod angen gwneud hynny. Byddai hynny'n cael ei wneud cyn i'r fersiwn ddrafft derfynol gael ei chyflwyno am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Penderfyniad Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod cynllunio morol, fydd cynnal ymchwiliad annibynnol, gan ddibynnu ar faint o'r materion a godir gan gynrychiolwyr na fyddant wedi'u datrys.

**Cam 12: Ystyriaeth derfynol a mabwysiadu CMCC a'r dogfennau cysylltiedig. (Diwedd gwanwyn/dechrau haf 2019)**

Ar ôl i'r cynllun gael ei brofi, ac yn amodol ar yr ymgynghoriad ffurfiol ac ar gael yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol, bydd CMCC wedi'i fabwysiadu a chaiff ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd. Bydd datganiad ar ôl mabwysiadu a datganiad o fanylion amgylcheddol, sy'n dangos sut y diwygiwyd CMCC yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd a sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r amgylchedd, yn cael eu cyhoeddi hefyd.

**Cam 13: Gweithredu a gwerthuso CMCC o 2019 ymlaen (O Ebrill 2019 ymlaen)**

Wrth adolygu a diwygio CMCC a fydd wedi'i gyhoeddi, byddwn yn dilyn yr un broses ymgynghori, ac ymchwilio a'r un broses seneddol ag ar gyfer y cynllun gwreiddiol, a bydd yn cael ei amlinellu a'i gyhoeddi mewn DGC pellach. Cyflwynir adroddiadau ar CMCC yn unol â gofynion DMMA.

**Cam 14: Cyflenwi hyfforddiant a chyfarwyddyd (o 2018 ymlaen)**

Bydd cyfarwyddyd a hyfforddiant yn bwysig iawn er mwyn sicrhau defnydd da o'r Cynllun. Rydym wedi cysylltu â'r holl 'Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol' sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun, fel y nodir yn Adran 58 o DMMA. Cafodd gweminarau cychwynnol eu trefnu gydol mis Awst er mwyn rhoi gwybodaeth gyffredinol i sefydliadau am y cynllun a'u swyddogaeth hwy. Awgrymir bod Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (GPCM) yn cael ei sefydlu a allai gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Medi 2018. Un o swyddogaethau'r grŵp hwn fyddai ystyried pa gyfarwyddyd a hyfforddiant o safbwynt gweithredu fyddai eu hangen. Ein nod yw sicrhau nad yw'r cynllun yn gosod baich ychwanegol ar weithgareddau ar raddfa fechan/weithgareddau isel eu risg.

**Os oes gennych unrhyw sylwadau am y ddogfen hon neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynllunio morol yng Nghymru, cysylltwch â:**

**Cynllunio Morol**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Ffôn: Caerdydd 03000 255811**
**E-bost: marineplanning@llyw.cymru**

**Neu ewch i'r tudalennau Cynllunio Morol ar wefan Llywodraeth Cymru:**
**https://beta.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2018
WG35914 ISBN digidol 978-1-78964-145-5